# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

## EDT2 10-05 (p5)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Gorffennaf 2005 |
| **Amser:** | 14:00 - 16.30 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Ffyrdd Cymorth Gwladwriaethol |

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thwristiaeth a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ystyried a gwneud sylwadau ar ddogfen ymgynghori'r Comisiwn Ewropeaidd "Cynllun Gweithredu ar Gymorth Gwladwriaethol" (State Aid Action Plan). Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gofyn am sylwadau erbyn 15 Medi 2005 a bydd EEAD2 yn gweithio'n agos â chyd-weithwyr yr Adran Masnach a Diwydiant ar y broses ymgynghori.

### Crynodeb

2. Dogfen ymgynghori yw'r Cynllun Gweithredu ar Gymorth Gwladwriaethol "Less and better targeted state aid: a roadmap for state aid reform 2005-09" sy'n amlinellu'r rhaglen waith ym maes polisi cymorth gwladwriaethol am y 5 mlynedd nesaf. Nid dogfen ddeddfwriaethol mo'r cynllun gweithredu ac ni fydd yn effeithio'n uniongyrchol nac ar unwaith ar reolau cymorth gwladwriaethol nac ar randdeiliaid. Ei diben yw lansio proses o ddiwygio a moderneiddio polisi cymorth gwladwriaethol mewn dull sy'n gynhwysfawr ac yn hybu cysondeb.
3. Mae'r Comisiwn, mewn partneriaeth â'r Aelod-wladwriaethau a rhanddeiliaid, yn cydnabod bod angen diwygio rheolau cymorth gwladwriaethol yn awr er mwyn cyfrannu'n well at dwf cynaliadwy, y gallu i gystadlu, cydlyniant cymdeithasol a rhanbarthol ac er mwyn diogelu'r

amgylchedd. Pwrpas y diwygio yn ei hanfod yw cydbwyso effeithiau negyddol cymorth ar gystadleuaeth â'i effeithiau cadarnhaol o ran diogelu buddiannau cyffredin. O ganlyniad i ehangu'r UE yn 2004 pwysleisiwyd yr angen am addasu'r polisi cymorth gwladwriaethol a sicrhau gwell llywodraethu er mwyn sicrhau rheolaeth fwy effeithiol ar yr Undeb estynedig. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gryfhau ymrwymiad Aelod-wladwriaethau i'w rhwymedigaeth i weithredu rheolau cymorth gwladwriaethol.

## Y Cefndir

4. Y nod yw cyflwyno pecyn cynhwysfawr a chyson o ddiwygiadau yn seiliedig ar yr elfennau canlynol:

   - llai o gymorth gwladwriaethol a hynny wedi'i dargedu'n well

   - dulliau gweithredu economaidd sydd wedi'u mireinio

   - gweithdrefnau mwy effeithiol, gwell mesurau gorfodi, y gallu i ragfynegi'n well a mwy o dryloywder

   - cyfrifoldeb ar y cyd rhwng y Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau i roi gwybod am unrhyw gymorth a ragwelir a sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau yn y dull mwyaf priodol

5. Dyma'r prif flaenoriaethau:

   - Targedu arloesi ac ymchwil a datblygu er mwyn cryfhau'r gymdeithas wybodaeth. Yn 2005 bydd y Comisiwn yn mabwysiadu Dogfen Gyfathrebu ar gymorth gwladwriaethol ac arloesi wedi'i hanelu at feithrin arloesi yn yr UE ac addasu Fframwaith Ymchwil a Datblygu y Gymuned er mwyn cynnig y cymhellion priodol i ddiwydiant fuddsoddi mwy mewn ymchwil a datblygu.

   - Creu gwell amgylchedd i fusnesau ac annog entrepreneuriaeth gan gynnwys adolygiad o'r Ddogfen Gyfathrebu ar gyfalaf risg gyda'r bwriad o ysgogi buddsoddi.

   - Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol o safon uchel nad ydynt yn arwain at orddigolledu na gwyrdroi cystadleuaeth yn ormodol.

   - Gwell dulliau o flaenoriaethu drwy symleiddio a chydgyfnerthu. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno rheoliad eithrio bloc cyffredinol a fydd yn eithrio rhai categorïau arbennig o gymorth rhag y rheidrwydd i hysbysu'r Comisiwn. Golyga hyn symleiddio a chydgyfnerthu'r eithriadau bloc presennol (hyfforddiant, busnesau bach a chanolig a chyflogaeth) ac integreiddio ystod ehangach o eithriadau gan gynnwys cymorth i gefnogi busnesau bach a chanolig ac ymchwil a datblygu.

   - Adolygu Canllawiau'r Gymuned ar gymorth rhanbarthol (RAG) y Comisiwn ac integreiddio Fframwaith amlsector ar gymorth rhanbarthol ar gyfer prosiectau buddsoddi mawr yn rhan o'r

canllawiau. Bydd hyn yn cynnwys posibiliadau ychwanegol i roi cymorth ar yr un raddfa. Mae'r Is-adran Polisi Economaidd yn rhoi cyngor ynghylch yr adolygiad hwn.

- Annog creu dyfodol sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd. Mae Canllawiau'r Gymuned ar gymorth gwladwriaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yn gymwys tan 2007 ond yn 2005 bydd y Comisiwn yn dechrau ystyried sut i fynd i'r afael yn well â'r sialensiau a'r cyfleoedd y mae datblygu cynaliadwy yn eu cynnig.

- Sefydlu seilwaith trafnidiaeth ac ynni modern gan gynnwys sicrhau bod y rheolau ynghylch cymorth gwladwriaethol yn glir er mwyn asesu'r adnoddau cyhoeddus sy'n rhan o'r Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat.

Y Goblygiadau Ariannol

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar hyn o bryd mewn perthynas â'r broses ymgynghori hon.

## Camau Gweithredu ar gyfer y ddau Bwyllgor

7. Gwahoddir sylwadau ynghylch y ddogfen ymgynghori hon. Bydd yr Aelodau am nodi hefyd wrth symud ymlaen â'r gwaith o uno'r CCNCau â Llywodraeth y Cynulliad y canfuwyd bod gwerth i gryfhau ein gallu i ddelio â materion yn ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol. Mae Uned Cymorth Gwladwriaethol gyffredin yn cael ei sefydlu er mwyn cynnig mwy o arbenigedd yn y maes pwysig hwn. Mae swydd Pennaeth yr Uned wedi'i hysbysebu a chynhelir y cyfweliadau y mis yma.

Prif Weinidog Cymru
7 Gorffennaf

Andrew Davies/Tamsin Dunwoody-kneafsey
14 Gorffennaf